



# Ymagwedd holistaidd tuag at Ansawdd yr Amgylchedd Lleol (AALI)

– cymryd camau ymlaen gyda'n gilydd

Keep Wales Tidy 2015



cadwch keep  
gymru'n wales  
daclus tidy

# Ymagwedd holistaidd tuag at Ansawdd yr Amgylchedd Lleol (AALL) – cymryd camau ymlaen gyda'n gilydd

Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn parhau i ddatblygu dull newydd o fynd i'r afael â phroblemau parhaus syn gysylltiedig ag ansawdd gwael yr amgylchedd lleol. Y nod yw atal a lleihau'r effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol niweidiol y maent yn eu cael ar ein cymdeithas. Ni ellir mynd i'r afael â'r problemau hyn ar eu pen eu hunain, mae angen newid cyfeiriad o ran cydweithredu ac mae'n rhaid canolbwyntio ar atal. Yn ogystal, rydym yn gynyddol ymwybodol na ellir mynd i'r afael â materion ynglŷn ag ansawdd yr amgylchedd lleol mewn ymgyrch 'cyffredinol i bawb'. Mae rôl o hyd i ymgyrchoedd cenedlaethol atal sbwriel ac atal baw cŵn a chamau cydlynus, (fel Gwanwyn Glân Cymru) i amlygu graddfa ac effaith y broblem ac i ymgysylltu â chymunedau. Ond wedi deud hynny mae'r broses o atal yn galw am ymyriadau a negeseuon gwahanol ar gyfer materion gwahanol. Mae hyn yn ymestyn i welliannau amgylcheddol cyffredinol (yn seiliedig ar leoliad a demograffeg) i fathau gwahanol o sbwriel (yn seiliedig ar ardal, ymddygiad sbwriel a ffynonellau).

Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i ni dargedu ffynonellau'r broblem. Rhaid mynd i'r afael â newid mewn ymddygiad yn ogystal ag edrych ar offerynnau polisi a chamau gweithredu eraill y gallwn eu cymryd gyda'r holl asiantaethau sydd â diddordeb yn y maes hwn. Mae angen datblygu'r camau hyn mewn partneriaeth. Bydd angen ffurfio partneriaethau newydd a fydd yn cydnabod natur amlochrog ac effeithiau ansawdd yr amgylchedd lleol ar feysydd y tu hwnt i'w rôl draddodiadol yn yr 'amgylchedd' i feysydd eraill fel iechyd a lles, trafndiaeth a thai.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi cyfle unigryw i ni edrych ar ansawdd yr amgylchedd lleol. Gallwn wneud hyn drwy lens gydweithredol a hirdymor er mwyn dod ynghyd i atgyfnerthu ymrwymadau a phartneriaethau newydd, ac mae gofyn mawr am hyn ar adeg o doriadau i gyllidebau a dyfodol deddfwriaethol ansicr yng Nghymru.

Yn y pen draw, ein nod yw dod â phobl at ei gilydd i ddyfeisio datrysiadau newydd ar gyfer problemau parhaus a gaiff eu blaenoriaethu'n gyson gan drigolion ar draws Cymru.

## Gweithredu Cydweithredol

Mae gan bob un o'n papurau polisi argymhellion penodol ar gyfer mynd i'r afael â'r mater perthnasol. Wedi dweud hyn, rydym yn edrych yn fras ar y penawdau canlynol fel ffordd o greu newid ac o ymgysylltu â rhanddeiliaid. Gall fod angen camau ar rai materion o dan bob un o'r penawdau hyn, tra bod eraill angen un neu fwy er mwyn 'ailffurfio' y mater mewn goleuni gwahanol neu i gysylltu ag agendâu eraill.

## Ymgysylltu cymunedol

Cynyddu rôl y gymuned wrth ofalu am a gwella eu hardaloedd, yw un o'r ffyrdd mwyaf pwerus a chynaliadwy o sicrhau canlyniadau. Fodd bynnag, gwyddom fod rhai cymunedau yn llai tebygol o gymryd rhan nag eraill. Yn arbennig ar gyfer materion amgylcheddol lleol. Gall hyn fod yn sefyllfa o gyfyng gyngor, lle gall amgylchedd gwael atgyfnerthu'r teimlad o fod ar wahân ac yn ddieithr. Yn ogystal â chynrychiolwyr o'r trydydd sector a'r cyhoedd yn yr ardaloedd hynny, ceir rôl yma yn arbennig ar gyfer busnesau lleol a chynghorwyr tref. Gallent gymryd y camau tuag at ail-ymgysylltu, gan ddechrau gyda thrafodaethau - ac yna camau dilynol - yn ymwneud â phryderon amgylcheddol lleol.

## Mwy o rôl ar gyfer busnesau - bach a mawr

Mae gan fusnes rôl allweddol i'w chwarae yn ansawdd amgylchedd lleol, ac mae llawer o sefydliadau mawr eisoes yn cydnabod effeithiau niweidiol bod yn gysylltiedig â sbwriel, ac felly eisoes yn gweithredu. Byddai eu hymdrechion wrth fynd i'r afael â sbwriel yn ymwneud â'u siopau yn cael ei wella trwy gydweithio â'i gilydd. Yn arbennig mewn ardaloedd lle gwelir crynodiad o sbwriel, fel parciau manwerthu y tu allan i drefi.

Gall ymdrechion busnesau bach hefyd gael effaith bwerus a gallent elwa wrth i'r cyhoedd eu gweld yn gwneud rhywbeth positif yn lleol. Nid oes rhaid i hyn fod yn ariannol o reidrwydd, ond byddai camau bach fel glanhau y tu allan i'w siopau neu swyddfeydd ym mhob ardal yn gwneud cyfraniad sylweddol i lawer o drefi. Fodd bynnag, nid yw ymgysylltu â busnesau bach bob amser yn hawdd. Felly mae angen i ni nodi ffyrdd gwell o ymgysylltu a chreu negeseuon newydd a naratif fydd yn canu cloch gyda busnesau llai sydd yn aml yn brin o amser ac adnoddau.

## Polisi a deddfwriaeth

Mae'r rhan fwyaf o gamau gweithredu i fynd i'r afael ag ansawdd yr amgylchedd lleol yn gofyn am ymateb mwy lleol, neu ranbarthol yn seiliedig ar bartneriaeth ac ymdrech gydweithredol. Fodd bynnag, gyda rhai materion bydd angen newid o ran polisi a/neu ddeddfwriaeth. Bydd rhai o'r rhain yn benodol (h.y. fod y baich am sbwriel a gaiff ei ollwng o gerbyd yn cael ei roi ar y gyrrwr, yn debyg i droseddau gyrru eraill) tra bod angen hwyluso trafodaethau ynglŷn â materion eraill. Er enghraifft, datblygu a defnyddio offerynnau economaidd newydd i gefnogi glanhau neu atal sbwriel.

Mae gofyniad cynyddol i edrych yn benodol ar rôl gorfodi ar gyfer sbwriel a baw cŵn a datblygu canllawiau cenedlaethol a fyddai'n berthnasol i gwmnïau preifat a staff y sector cyhoeddus.

## Tystiolaeth ac ymchwil

Mae casglu data sy'n benodol i Gymru yn flaenoriaeth i Cadwch Gymru'n Daclus. Mae ein harolygon System Reoli ar gyfer Archwilio'r Amgylchedd Lleol yn sail i'n gwaith o gasglu tystiolaeth ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae ardaloedd eraill yn dymuno i ni gasglu gwybodaeth newydd, fel data yn ymwneud â sbwriel a gaiff ei ollwng o gerbydau. Lle nad oes ymchwil wedi cael ei gwneud yn y gorffennol, mae Cadwch Gymru'n Daclus wedi arbrofi mewn dulliau negeseuon neu ddulliau 'pwnio' i geisio gweld beth sy'n gweithio - a beth sydd ddim. Mae dipyn o waith ymchwil i'w wneud o hyd ym maes marchnata cymdeithasol er mwyn mynd i'r afael â materion AALL parhaus, ac mae llwyddiant yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau.

Mae ein papurau polisi yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n cael ei hadolygu gan ein cyfoedion (pan fydd yn bodoli), data'r System Reoli ar gyfer Archwilio'r Amgylchedd Lleol, trafodaethau randdeiliaid a threialon wedi eu monitro'n effeithiol. Byddwn hefyd yn ceisio defnyddio enghreifftiau ac astudiaethau achos o fannau eraill yn y byd, lle bu ymyriad yn llwyddiannus. Mae ein partneriaid Ewropeaidd a Rhyngwladol yng Nghymdeithas Atal Sbwriel Ewrop (ELPA) a Sefydliad Addysg Amgylcheddol (FEE), yn y drefn honno, yn sicrhau ein bod bob amser mewn cysylltiad â datblygiadau newydd ac yn dysgu o bob rhan o'r byd.

## Cydweithredu

Mae cydweithredu yn allweddol i unrhyw ymyrraeth llwyddiannus sydd yn ceisio sicrhau newid cymdeithasol cadarnhaol. Mae angen i bob un o'r rhanddeiliaid ymrwymo er mwyn creu newid ar draws Cymru. Mae Cadwch Gymru'n Daclus eisoes yn gweithio gydag ystod o randdeiliaid ar draws Cymru a thu hwnt. Gwnânt hyn drwy gefnogi a datblygu datrysiadau a goresgyn rhwystrau a rennir, o awdurdodau lleol i Lywodraeth Cymru, grwpiau cymunedol, busnesau a sefydliadau dielw eraill. Fodd bynnag, mae angen ymestyn ein perthynas ymhellach. Rydym angen dangos y cysylltiadau rhwng ein gwaith ni, a gwaith y rhai yn y sector iechyd, tai, economi a manau eraill lle'r ydym yn gwybod bod cydberthyniad cryf - a blaenoriaethau a rennir - yn bodoli.

## Atal

Nid yw atal dirywiad amgylcheddol a hybu ffyrdd o fyw yn gynaliadwy yn weithred gyflym, ond mae'n un y mae'n rhaid i ni gyd, yn yr hirdymor, fod yn ceisio ei gyflawni.

Mae atal yn well na glanhau adweithiol sydd yn costio amser ac arian. Er nad yw'n ateb tymor byr, gellir cyflawni hyn trwy ymgysylltu, addysgu a chyflwyno ymyriadau eraill i hybu newid cadarnhaol mewn ymddygiad. Bydd cyfuniad o'r rhain i gyd, ac yn cynnwys gorfodi mewn rhai ardaloedd, yn creu'r amgylchedd sydd ei angen ar gyfer newid diwyllianol a chymdeithasol. Po fwyaf o bartneriaid y gallwn eu cynnwys, sy'n cymryd camau i atal y dirywiad amgylcheddol, y mwyaf llwyddiannus y byddwn!

Mae hyn hefyd yn berthnasol i'r maes gwastraff, ailgylchu a dewis ffordd o fyw defnyddwyr. Mae angen i ni edrych ar y gorddefnydd o blastig, y potensial ar gyfer mentrau economi gylchol sydd yn hybu atgyweirio ac ailddefnyddio, sut rydym yn teithio, ble rydym yn gweithio a'r hyn yr ydym yn ei brynu

## Mannau gwyrdd a glas sy'n hygyrch, wedi eu cynnal yn dda, ac o ansawdd uchel

Mae ein parciau cyhoeddus a'n traethau - manau lle caniateir i'r amgylchedd naturiol ffynnu - yn hafan i fodau dynol a bywyd gwylt fel ei gilydd. Ond dim ond yn y blynyddoedd diweddar y mae pwysigrwydd isadeiledd gwyrdd yn cael ei gydnabod mewn polisi am ei fanteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol lluosog. Gall manau gwyrdd o ansawdd, helpu i leihau llygredd, sy'n gysylltiedig ag asthma a chlefyd y galon. Gall hefyd helpu i leihau symptomau iselder a salwch meddwl, lleddfu'r perygl o lifogydd, darparu cynefinoedd i fywyd gwylt a chynyddu bioamrywiaeth, cynhyrchiant ac arloesedd a darparu gofod ar gyfer cydlynant cymunedol.

Mae'n hanfodol i'n hamgylchedd, i'n cymdeithas a'n heconomi ein bod yn cynnal y manau hyn ac yn creu mwy ohonynt. Yn fwy arwyddocaol, yw eu pwysigrwydd yn ein hardaloedd trefol lle mae ganddynt rôl bwysig i'w chwarae wrth wella ansawdd aer a sŵn a gwella iechyd a lles.

Mae'n hanfodol felly bod gan warcheidwaid y manau hyn, awdurdodau lleol, cynghorau, grwpiau cymunedol, yr offer a'r adnoddau i reoli'r manau hyn yn effeithiol. Mae cyllidebau cyfyngedig yn rhoi'r manau hyn mewn perygl o gael eu hesgeuluso ac mae angen atebion newydd er mwyn sicrhau nad yw'r manau hyn yn cael eu colli.

## Negeseuon

Mae cryn dipyn o ymchwil wedi ei wneud i'r dull o ddefnyddio negeseuon. Y mae bron pob un yn dod i'r casgliad mai ychydig o effaith y mae dweud 'Na' neu 'Paid', yn ei chael. Rôl negeseuon atal sbwriel cyffredinol yw codi proffil y mater a'i gadw a'r brig yr agenda. Er bod rhai ymgyrchoedd yn cael effaith gadarnhaol, mae'n annhebygol o aros ym meddyliau pobl am fwy na hyd yr ymgyrch neu i newid ymddygiad parhaus troseddwy. Fel y soniwyd eisoes, mae problemau gwahanol yn gofyn am ddatrysiadau ac ymyriadau gwahanol. Mae angen ystyried y term 'sbwriel' a phopeth y mae'n ei gwmpasu, fel cyfres o ymddygiadau, ffynonellau, mathau ac ysgogiadau gwahanol.

Rydyn ni yn Cadwch Gymru'n Daclus wrthi'n diweddarau yr holl bapurau gweithredu ar bolisi penodol sydd gennym, sydd yn edrych ar brif ffynonellau sbwriel yn fanylach. Mae'r camau i fynd i'r afael â phob mater yn ymwneud ag asiantaethau gwahanol, negeseuon gwahanol ac atebion wedi eu teilwra sy'n targedu'r ardal, y ddemograffeg a ffynhonnell benodol y broblem. Yn ddelfrydol, byddai pob lleoliad yn cynnal ei asesiad ei hun yn seiliedig ar y problemau a'r asiantaethau yn yr ardal honno ac yn datblygu strategaeth leol gyda chymau gweithredu a nodau a rennir.

Gwyddom yn sgil nifer o astudiaethau mai dull effeithiol o newid ymddygiad anghyfrifol yw cyfeirio at y ffaith nad yw'n 'norm cymdeithasol'. Er enghraifft, 'mae 90% o bobl yn gwaredu eu sbwriel yn gyfrifol' er bod rhai sefyllfaoedd lle gall hyn fod yn wahanol.



33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB | 33-35 Cathedral Rd, Cardiff, CF11 9HB

☎ 029 2025 6767 🌐 [keepwalestidy.cymru](http://keepwalestidy.cymru) ✉ [info@keepwalestidy.cymru](mailto:info@keepwalestidy.cymru)

Cadwch Gymru'n Daclus yn gwmni wedi ei gyfyngu trwy warant. Rhif Cwmni: 4011164 Rhif Elusen: 1082058 Rhif TAW: 850 3958 13  
Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 850 3958 13

